cyswllt teulu cymru

i deuluoedd gyda phlant anabl

# mewn cyswllt

**Cylchlythyr Cyswllt Teulu Cymru**

www.cafamily.org.uk/wales

Ruth a Harri Jenkins yn Lansiad o'r Adroddiad "Don't Push Me Around"
(Gweler tudalen 4 am fwy o wybodaeth)

**Cyswllt Teulu Cymru**,
Adeilad y Cyfnewidfa, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5EB,
Ffôn. 029 2049 8001, Ffacs 029 2049 5001 e-bost wales@cafamily.org.uk
Llinell gymorth di-dâl y DG 0808 808 3555

1979 - 2004

25 mlynedd o ymestyn allan i deuloedd

**Haf 2006**

# Gyda Phwy i Gysylltu

**Keith Bowen, Rheolwr Cymru**

- unrhyw faterion yn ymwneud ag ymgyrchu a pholisi cenedlaethol
- cysylltu gyda sefydliadau gwirfoddol eraill
- hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol

**e-bost: keith.bowen@cafamily.org.uk ffôn: 029 2049 8001**

**Katie Barrett-Goode, Swyddog Datblygu Grŵp ac Ymholiadau**

- ymholiadau cyffredinol neu unigol yn ymwneud â phlentyn anabl
- datblygu grwpiau lleol
- taflenni gwybodaeth a chyhoeddiadau
- unrhyw beth yn ymwneud a'r Cylchlythyr neu restr bostio Cyswllt Teulu

**e-bost: katie.barrett-goode@cafamily.org.uk ffôn: 029 2049 8001**

**Martin Davies, Swyddog Prosiect Pediatrig**

- siarad gyda gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd
- cefnogi rhieni a hoffai fod yn gysylltiedig â llunio gofal iechyd plant
- cefnogi gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a hoffai weithio mewn partneriaeth â rhieni

**e-bost: martin.davies@cafamily.org.uk ffôn: 029 2049 8001**

**Jill Bartlett, Swyddog Datblygu – Gweithdai a Digwyddiadau**

- gweithdai ar gyfer rhieni
- diwrnodau i'r teulu
- digwyddiadau a gweithgareddau

**e-bost: jill.bartlett@cafamily.org.uk ffôn: 01248 670965**

**Pat McCarthy, Swyddog Datblygu – Prosiect Llais Rhieni**

- cyfranogiad rhieni
- ymgyrchu a pholisi lleol
- hyfforddiant cyfranogi ar gyfer rhieni a gweithwyr proffesiynol
- datblygu fforymau rhieni

**e-bost: pat.mccarthy@cafamily.org.uk ffôn: 01874 665757**

**Cynrychiolwyr Gwirfoddol Ardaloedd Lleol**
Y mae'n Gwirfoddolwyr i gyd yn rhieni plant anabl ac y maent ar gael i gynnig cefnogaeth a gwybodaeth yn eu hardal leol.

Brian Williams *Gwynedd* 01766 770 355
Anna Pollard *Wrecsam* 01978 780 163
Diane Earl *Conwy* 01492 549 013
Toni Bewley *Sir Ddinbych* 01745 584 190
Jane Dodgeon *Ceredigion* 01239 811 066

Y mae'r farn a fynegir a'r awgrymiadau a geir yn y daflen newyddion hon yn rhai o eiddo cyfranwyr unigol ac nid ydynt o angenrheidrwydd yn cael eu harddel gan Cyswllt Teulu. Ni all Cyswllt Teulu dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw nwyddau neu wasanaethau a grybwyllir yn neu a amgaeir gyda'r daflen newyddion hon.

# Newyddion diweddaraf

## Prosiect Rhieni a Phediatregwyr Gyda'i Gilydd

Yn dilyn lansio'n hadroddiad interim ynglŷn â gwasanaethau cadeiriau olwyn ar gyfer plant a phobl ifanc ar y 13eg o Fehefin (gweler tudalen 4 am fanylion llawn), 'rwyf yn awr yn cynhyrchu'r adroddiad llawn y byddwn yn ei lansio ym mis Medi, 2006. Fodd bynnag, y mae yna ddigon o bethau eraill wedi bod i fy nghadw yn brysur.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, 'rydym wedi bod yn gweithio gyda grŵp o rieni sy'n dymuno defnyddio'u profiadau i ddylanwadu ar y ddarpariaeth o ofal iechyd lleol. Y mae yna gyfarfod gyda darparwyr gofal iechyd lleol wedi'i drefnu ar gyfer diwedd mis Mehefin. Y mae'n rhaglen o sgyrsiau gyda gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a myfyrwyr sy'n weithwyr proffesiynol ym maes iechyd yn parhau. 'Rydym bellach wedi dechrau cael rhieni i gymryd rhan gyda rhoi'r sgyrsiau hyn ac y mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Y mae Coleg Brenhinol Pediatregwyr ac Iechyd Plant wedi gwahodd Cyswllt Teulu i ddarparu aelod lleyg ar gyfer eu pwyllgor busnes Cymreig.

Y mae Prosiect Gwasanaethau Arbenigol Plant a Phobl Ifanc o eiddo'r Cynulliad yn dal yn eitem sylweddol ar fy agenda gwaith. 'Rwyf yn awr yn eistedd ar grŵp llywio y prosiect ac yr ydym wedi cytuno i ddosbarthu copïau o ddogfennau safonau ymysg sefydliadau gwirfoddol eraill.

Os hoffech fwy o wybodaeth am weithgareddau prosiectau yng Nghymru, a fyddech cystal â chysylltu (manylion gyferbyn).

## Prosiect Llais Rhieni

Cysylltwch â ni os hoffech drafod sut y gall y prosiect eich cynorthwyo i godi unrhyw faterion sydd gennych, naill ai gyda'ch awdurdod lleol neu gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fe allaf fynychu'ch grŵp cefnogi neu ble'r bynnag yr ydych yn cyfarfod a sefydlu diwrnod grŵp ffocws. Mewn grŵp fel hyn, yr ydym yn trafod y materion sydd o bwys i chi a sut yr ydych yn dymuno mynd o'i chwmpas hi i'w codi. O hyn, fe allaf drefnu un o'r diwrnodau hyfforddi yr wyf wedi'u creu a gaiff eu llunio'n union ar gyfer sut yr ydych yn dymuno bwrw ymlaen â'r mater.

Y mae diwrnod *Hyfforddi Ymgyrchu* yn boblogaidd iawn gyda rhieni a gofalwyr ac y mae'n cynorthwyo yn wirioneddol i roi gwedd gliriach ar y ffordd ymlaen.

Y mae diwrnodau hyfforddi *Cyfranogiad Rhieni* yn edrych ar yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn gysylltiedig â llunio polisi chynllunio ar unrhyw lefel.

Fe allaf *greu diwrnod hyfforddi* yn arbennig i'ch grŵp os teimlwch mai hynny fyddai'r gorau.

Am fwy o wybodaeth, a fyddech cystal â chysylltu (manylion gyferbyn).

## Gweithdai

Y mae'r ychydig fisoedd diwethaf wedi bod yn brysur, gyda gweithdai yn cael eu cynnal yn Aberystwyth, Y Fflint, Wrecsam a Llandudno. 'Rydym wedi ymdrin ag amrywiol bynciau, megis "Tyfu'n Oedolyn a Rhywioldeb", a oedd mor boblogaidd, yr oedd yn rhaid inni gynnal y digwyddiad ddwywaith! Fe gafwyd hwyl hefyd yn y sgiliau Cyfathrebu a Thrafod, gyda digon o gyfle i chwerthin tra ein bod yn dysgu cyfathrebu'n effeithiol.

Y mae'r ffilmiau a ddangosir yn llwyddiant mawr, gyda rhagor o ddangosiadau wedi'u cynnal yn Galeri yng Ngogledd Cymru, yn Theatr y Mwldan yn Aberteifi, ac yng Nghanolfan Gelfyddydau Taliesin yn Abertawe.

Yn ystod yr hydref, y mae gennym weithdai trin gyda dwylo, rhagor o ddiwrnodau Sgiliau Trafod, gweithdai Ymddygiad Heriol yng Nghaerdydd a gweithdai Ewyllysiau ac Ymddiriedolaethau (mannau cyfarfod i'w trefnu).

Mis Tachwedd diwethaf, fe wnaethom gynnal digwyddiad hyfforddiant cadeiriau olwyn yng Nglanllyn, Y Bala. Diolch i gronfa 'Archesgob Cymru', fe fyddwn yn cynnal digwyddiad cyffelyb eleni ar yr 11eg a'r 12fed o Dachwedd. Cysylltwch â mi, os gwelwch yn dda, os hoffech gael mwy o fanylion (manylion gyferbyn).

# “Don’t Push Me Around”

Mae Harri yn cwrdd a Gweinidog Cynulliad, Jane Davidson

Keith Bowen, Rheolwr Cyswllt Teulu Cymru

Mae Harri yn paratoi ar gyfer ei ymadrodd

Neera Sharma o Barnardo’s - Cyd-awdur yr adroddiad

Ar y 13eg o Fehefin, 2006, fe wnaeth Barnardo’s, Whizzkids a Cyswllt Teulu gynnal digwyddiad ar y cyd yng Nghynulliad Cymru ym Mae Caerdydd, gyda’r Gweinidog Iechyd, y Dr Brian Gibbons, i amlygu problemau gyda gwasanaethau cadeiriau olwyn yng Nghymru. Fe wnaeth rhieni a phobl ifanc anabl fynychu lansiad ***‘Don’t Push Me Around’***, adroddiad Barnardo’s a Whizzkids ynglŷn â gwasanaethau cadeiriau olwyn ar gyfer plant a phobl ifanc yn y Deyrnas Unedig, ynghyd ag adroddiad interim Cyswllt Teulu Cymru ynglŷn â gwasanaethau yng Nghymru.

Y mae’r **Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a’r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru (‘FfGC Plant’)** yn gosod targedau penodol iawn ar gyfer gwasanaethau cadeiriau olwyn. Yr oedd Cyswllt Teulu Cymru yn dymuno darganfod a oedd y FfGC wedi dechrau gwella gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc, ac felly fe wnaethom gynnal arolwg yng ngwanwyn 2006.

**Ein canfyddiadau cychwynnol oedd:**

Yr oedd mwy nag 80% o deuluoedd wedi aros yn hwy na tharged y FfGC o 6 wythnos ar gyfer asesiad.
Yr oedd mwy na 55% o deuluoedd wedi aros yn hwy na tharged y FfGC o 8 wythnos ar gyfer darpariaeth.
Fe ddywedodd nifer arwyddocaol o rieni wrthym eu bod wedi aros am fwy na’r 12 mis a gaiff ei ddatgan yn y FfGC am ail-asesiad. Fe ddywedodd mwy na hanner yr atebyddion wrthym nad oedd cadeiriau’u plant wedi’u hadolygu a’u cynnal a’u cadw yn rheolaidd.
Fe amlygodd ein harolwg angen dybryd am hyfforddiant ar gyfer plant a phobl ifanc a’u rhieni, fel ei gilydd. Fe ddywedodd mwy na hanner y rhieni wrthym nad oeddynt wedi cael cynnig dewis o gadeiriau olwyn ac ategolion ar gyfer eu plentyn, a bod dyluniad cadeiriau olwyn yn aml yn fwy addas ar gyfer oedolion hŷn nag ar gyfer anghenion pobl ifanc.

Yn y digwyddiad, fe wnaeth Harri Jenkins (10), sy’n defnyddio cadair olwyn, a’i fam, Ruth, rannu’u profiadau o wasanaethau cadeiriau olwyn. Fe hoffem yn arbennig ddiolch i nid yn unig Harri a Ruth, ond hefyd i’r holl rieni a phobl ifanc eraill a fynychodd (yr oedd rhai ohonynt wedi teithio i lawr o Ogledd Cymru am y diwrnod). Fe hoffem hefyd ddiolch i’r rhieni hynny a gymrodd yr amser i gwblhau holiaduron ac sydd hefyd wedi cytuno i gymryd rhan mewn ymgyrch yn y cyfryngau a chyflwyno astudiaethau achos.

**Fe fydd yna adroddiad llawn yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi, 2006. A fyddech cystal â gadael inni wybod os hoffech gael copi.**

# Hysbysfwrdd

## Cyngerdd Cerddoriaeth Glasurol i gymorth Canolfan Therapi Plant Bobath

Y mae'r ganolfan hon, a leolir yng Nghaerdydd, yn cynnig therapi arbenigol i blant o bob cwr o Gymru, sy'n dioddef gyda pharlys yr ymennydd.

Ar yr 2ail o Orffennaf am 2.30 y pnawn, fe fydd Richard McMahon yn perfformio datganiad piano yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru i godi arian i Bobath.

Os hoffech fod yn y gynulleidfa, fe fydd arnoch angen archebu tocyn oddi wrth y swyddfa docynnau ar 029 2039 1391, neu am fwy o wybodaeth, ewch i:

**www.justgiving.com/ musiconasundayafternoon**

Fe allwch hefyd ganfod mwy am waith Bobath yn **www.bobathwales.org**

## Ceir RSVP ar gyfer Gofalwyr

Yn dilyn llwyddiant y cynllun Ceir ar gyfer Gofalwyr yn sir Benfro, y mae RSVP (Rhaglen Wirfoddoli'r Rhai sydd wedi Ymddeol a Phobl Hŷn) yn falch iawn o allu cyhoeddi bod cyllid wedi'i sicrhau oddi wrth y Loteri i sefydlu cynllun yng Ngheredigion. Yn gynllun wedi'i gynllunio yn benodol gyda gofalwyr di-dâl mewn golwg, fe fydd gyrwyr gwirfoddol Ceir ar gyfer Gofalwyr yn gallu cynnig tair taith yr wythnos i unrhyw un sy'n gofalu am aelodau'r teulu neu gyfeillion gartref.

Os ydych yn ofalwr di-dâl yng Ngheredigion ac y mae arnoch angen cludiant, fe fyddai Rachel Evans, gweithiwr prosiect RSVP, wrth ei bodd clywed oddi wrthych; fe gaiff y cynllun ei ddatblygu yn ystod yr haf, ac fe hoffai Rachel ddechrau clywed oddi wrth ddefnyddwyr posibl y gwasanaeth yn awr. Yn ychwanegol, os hoffai rhywun yrru cerbyd dros y cynllun (fe delir lwfans milltiredd ac amrywiol dreuliau), cysylltwch â Rachel, os gwelwch yn dda, am sgwrs i ganfod sut y gallwch chi gynorthwyo.

**Cysylltwch â Rachel Evans ar: 07733 265 769**

## Llinell Gyswllt â'r Gymraeg

Y mae'r Llinell Gyswllt â'r Gymraeg yn wasanaeth unigryw sy'n darparu gwybodaeth gyffredinol am Gymru a'r iaith Gymraeg. Yn benodol, y mae'r Llinell Gyswllt yn cyfieithu hyd at 30 o eiriau, y mae'n golygu hyd at 75 o eiriau, y mae'n darparu gwybodaeth am bob agwedd o Gymru a'r iaith Gymraeg, ac y mae'n cynghori ynglŷn ag enwau lleoedd yng Nghymru. Y mae'r cyfan o'r uchod yn ddi-dâl. **Llinell Gyswllt â'r Gymraeg - ffôn: 0845 6076070, neu e-bost: cyswllt@bwrdd-yr-iaith.org.uk**

**DYDD LLUN, 18fed o FEDI 2006**
**9.20 y bore – 4.00 y pnawn**
**The Village Hotel, Coryton, Caerdydd**

**DISGYBLAETH gydag URDDAS**
***A Practical Approach* gyda'r Dr Bill Rogers**

Os oes arnoch angen diwrnod ysbrydoledig, ni ddylech golli Bill. Y mae'n enwog am ei ddulliau gweithredu ymarferol, effeithiol a synhwyrol gydag ymdrin â phroblemau ymddygiad mewn ystafelloedd dosbarth. Fe fydd Bill yn cyflwyno strategaethau sy'n hawdd eu mabwysiadu ac o fewn cyrraedd i bawb eu defnyddio. Fe ddylai pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, gan gynnwys rhieni, fynychu.

Y mae ffioedd fel a ganlyn:

**Cynhadledd Breswyl** - **£190** Cinio ar yr 17eg – Lle i Aros Dros Nos ynghyd â Chynhadledd ar y 18fed.

**Di-breswyl** - **£150** Cinio ar yr 17eg ynghyd â Chynhadledd ar y 18fed.

**Cynhadledd Ddydd** - **£120** ar y 18fed. Dim ond Ffi Cynrychiolwyr.

**Bwrsariaethau ar gael i rieni, gofalwyr a phobl ifanc**

**Am fwy o wybodaeth neu i archebu lle, cysylltwch â Jenny Jones ar 02920 388776 neu anfonwch e-bost at jenny.jones@snapcymru.org**

# Hysbysfwrdd

## Second Space – Gwyliau

Elusen yw *Second Space* sy'n trefnu gwyliau ar gyfer rhieni sy'n gofalu am blant sy'n anabl ddifrifol neu'n derfynol wael. Y mae pobl sydd ag ail gartrefi a chartrefi gwyliau o amgylch y wlad yn rhoddi un wythnos y flwyddyn i *Second Space*. Yn eu tro, y mae *Second Space* yn cynnig yr wythnosau hyn i rieni fel y gallant hwythau elwa oddi wrth wyliau seibiant gyda neu heb eu plentyn, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau.

Y mae *Second Space* yn ei drydedd flwyddyn; ers dechreuad y cynllun, y mae wedi llwyddo i drefnu tua 70 o wyliau i deuluoedd sy'n gofalu am blentyn gwael neu blentyn anabl ddifrifol. Y mae *Second Space* yn gwerthfawrogi y gall seibiant neu o leiaf newid golygfa wneud gwahaniaeth aruthrol, gan rymuso rhieni fel eu bod yn gallu parhau â'u dyletswyddau yn gofalu.

Y mae'r cynllun wedi bod yn llwyddiant mawr ac yr ydym yn y gwaith o ddatblygu cronfa ddata o deuluoedd a all fod â diddordeb mewn gwyliau *Second Space* ar gyfer y dyfodol.

Fe ddylai teuluoedd sydd â diddordeb gysylltu â *Second Space* yn uniongyrchol i gael ffurflen gais:

**Amanda Sidwell**
**Ffôn: 020 7792 9043**
**E-bost: amandasidwell@secondspace.net**
**Gwefan: www.secondspace.net**

## Gwasanaeth Llinell Gymorth Newydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sydd ag Anableddau Dysgu

Y mae *Respond* wedi lansio'r gwasanaeth llinell gymorth newydd hwn a anelir at blant a phobl ifanc sydd ag anableddau dysgu sy'n cael profiad o fwlio, camdriniaeth, problemau perthynas neu rywiol, neu sydd ond angen trafod problem gyda rhywun. Fe atebir galwadau gan gwnselwyr wedi'u hyfforddi ac y mae yna wasanaeth cyfeirio at sefydliadau buddiol eraill ar gael.

**Llinell Gymorth: 0808 808 0700** (Bob dydd Llun a dydd Iau, 2.00 y pnawn – 7.00 yr hwyr; bob dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Gwener, 12.00 y pnawn – 5.00 y pnawn).

## Hoppits—Abertawe

Y mae hwn yn brosiect a weithredir gan *Discovery*, gwirfoddoli gan fyfyrwyr. Y mae'r prosiect yn gweithio gyda phobl sydd ag anableddau yn Abertawe, ac y mae'n cael ei weithredu yn arbennig ar gyfer y sawl sydd rhwng 11 a 18 mlwydd oed.

Nod Hoppits yw galluogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau a allai fel rheol fod yn gaeëdig iddynt. Y mae Hoppits yn brosiect sy'n mynd â phobl ifanc yn eu harddegau sydd ag ystod o anableddau ar deithiau undydd, cyfarfodydd cymdeithasol a phenwythnosau preswyl.

Os oes gennych ddiddordeb neu os hoffech fwy o fanylion, a fyddech cystal â chysylltu â **01792 513186**.

## Tocynnau Sinema Am Ddim

Y mae Cymdeithas Arddangoswyr Sinemâu (CEA) mewn cydweithrediad â chwmnïau sinema a'r Comisiwn Hawliau Anabledd wedi cyflwyno menter newydd - cerdyn adnabod ar gyfer y gwesteion hynny sy'n dymuno manteisio ar ein polisi tocynnau am ddim i ofalwyr. Y mae'r holl gadwyni sinema mawr yn y DU yn derbyn y cerdyn hwn.

Y mae'r 'Cerdyn CEA', sy'n gerdyn mantais cenedlaethol, yn awr ar gael ac y mae'n rhoi'r hawl i'r deilydd gael un tocyn am ddim dros berson sy'n mynd gydag ef neu hi i'r sinema. I wneud cais am y cerdyn hwn, fe fydd ar y deilydd angen bodloni un neu ragor o'r meini prawf a ganlyn:

- Bod yn derbyn Lwfans Byw i'r Anabl
- Bod yn berson wedi cofrestru fel dall
- Bod yn ddeilydd cerdyn rheilffordd person anabl.

Am ragor o wybodaeth, a fyddech cystal â chysylltu â:

***The Card Network***
**Ffôn: 0845 123 1292**
**Minicom / Ffôn Testun: 0151 356 7113**
**www.ceacard.co.uk**
**www.uci.co.uk**

# Hysbysfwrdd

## Grŵp Cefnogi Awtistiaeth Siroedd Dinbych a Chonwy

Y mae hwn yn grŵp newydd sy'n agored i bob teulu yn sir Conwy a sir Ddinbych sydd â phlentyn awtistig (y mae hefyd yn agored i oedolion awtistig).

Fe gynhelir cyfarfodydd unwaith y mis, gan roi'r cyfle i rieni gael coffi a sgwrs. Y mae gan y grŵp gysylltiadau da gyda'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed o ble y mae Seicolegydd Clinigol yn mynychu'r rhan fwyaf o gyfarfodydd. Y mae gweithiwr o SNAP hefyd yn mynychu i gyfarfod â rhieni.

Yn ogystal â'r grŵp rhieni a gynhelir unwaith y mis, y mae'r grŵp hwn yn anelu at gynnal diwrnodau gweithgareddau ar wahân ar gyfer y teulu cyfan. Yr un nesaf o'r rhain yw 'Parti yn y Parc' sydd i'w gynnal ar yr 16eg o Orffennaf, 2006 ym Mharc Eirias, Bae Colwyn.

Am fwy o wybodaeth am y grŵp hwn neu i ganfod gwybodaeth am y digwyddiadau sydd ganddynt ar y gweill, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â **Dave Morgan** ar **01745 332686**.



Y mae **CATCH UP Cyf** yn elusen gofrestredig a ariannir gan Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin. Y maent yn darparu gwybodaeth a chyngor parthed budd-daliadau lles, y maent yn cynorthwyo pobl i lenwi ffurflenni budd-daliadau ac yn eu cynghori hwynt ynglŷn â herio penderfyniadau nad ydynt yn fodlon arnynt. Yn aml, nid yw pobl yn sicr a ydynt yn cael y budd-daliadau y mae ganddynt yr hawl iddynt ac, ar yr amod fod ganddynt yr wybodaeth berthnasol oddi wrth y cleient, fe allant gyfrifo maint eu hawliad. Y mae ganddynt hefyd wasanaeth ymweld â chartref ar gyfer cleientydd nad ydynt yn gallu ymweld â'r swyddog, ac adran yn benodol ar gyfer cyngor a chynrychiolaeth mewn tribiwnlys apêl.

Am fwy o wybodaeth am y gwasanaeth hwn, fe allwch fynd i **www.catchupltd.co.uk neu gysylltu â CATCH UP ar 01554 776850 neu e-bost info@catchupltd.co.uk**

A ydych yn 11 – 25 mlwydd oed, yn byw ym Mhowys ac y mae gennych rywbeth i ddweud? Yna, cymrwch ran yn y gystadleuaeth isod.

## Dywedwch eich Dweud ac Enillwch iPod

Y mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc (CYPPP) wrthi yn cynnal archwiliad o anghenion plant a phobl ifanc ym Mhowys. Yr ydym eisiau canfod y materion sy'n bwysig i Bobl Ifanc ac asesu pa un ai a yw awdurdodau cyhoeddus yn diwallu'u hanghenion. I wneud hyn, yr ydym yn edrych ar gyflawniad a hygyrchedd Gwasanaethau ym Mhowys er mwyn nodi bylchau mewn darpariaeth.

Yr ydym eisiau canfod yr hyn y mae Pobl Ifanc ym Mhowys yn dymuno'i gael a'r hyn nad ydynt yn dymuno'i gael, a ydych yn gallu cael mynediad at wasanaethau pan ydych yn dymuno gwneud ac a yw gwasanaethau yn diwallu'ch anghenion. Y mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn edrych ar yr holl wasanaethau ym Mhowys, yn amrywio o Addysg, Cyfleusterau Cymdeithasol a Hamdden a Gwasanaethau Gwybodaeth i Gyfleusterau Cludiant.

Fe fydd canlyniadau'r Archwiliad hwn yn ein caniatáu ni i gynllunio ar gyfer gwasanaethau'r dyfodol, ac yn ein galluogi ni i ganolbwyntio cyllidau ar gynnal a chreu gwasanaethau sydd naill ai'n ddiffygiol neu heb fod yn bodoli.

I fod yn gysylltiedig â'r archwiliad ac i gael dweud eich dweud, ewch i www.powysYOB.com i gwblhau holiadur syml, ac fe gewch wedyn y cyfle i ennill 1 o 3 iPod yr ydym yn eu rhoi yn rhad ac am ddim.

Y dyddiad cau yw hanner nos, yr 31ain o Orffennaf 2006, ac fe dynnir yr enwau yn go fuan ar ôl hynny, ac fe hysbysir y 3 sy'n ennill yr iPod ym mis Awst. Am gopi papur, ffoniwch 01597 82 6352.

Fe wahoddir gweithwyr proffesiynol a theuluoedd hefyd i gymryd rhan yn yr ymgynghori drwy gysylltu â ni ar y rhif uchod.

**Dyma'ch CYFLE CHI i DDWEUD EICH DWEUD**

# Ffurflen Archebu

A fyddech cystal â chwblhau a dychwelyd y ffurflen hon os hoffech archebu unrhyw rai o Daflenni Gwybodaeth Cyswllt Teulu, neu os hoffech gael eich cynnwys ar restr bostio ar gyfer Taflen Newyddion Cyswllt Teulu Cymru.

Rwyf yn: ☐ Rhiant ☐ Sefydliad Gwirfoddol ☐ Arall (nodwch chi)
☐ Grŵp Cefnogi Rhieni ☐ Sector Statudol ……

Enw …….…… Mudiad (os yn berthnasol) ……...
Cyfeiriad ……
……
Côd post ……..……..Ffôn .... ……

A fyddech cystal â datgan faint o daflenni gwybodaeth y mae arnoch eu hangen (y mae unrhyw nifer o daflenni gwybodaeth am ddim i rieni, er y codir tâl o 25 ceiniog yr un ar eraill am gopïau ychwanegol oni bai y datgenir yn wahanol)

Fe hoffwn gael fy nghynnwys ar eich rhestr bostio a derbyn……...o gopïau o Cylchlythyr Cyswllt Teulu.

| | Copiau |
|---|---|
| Pan fo gen eich plentyn anghenion ychwanegol **( £1.00 am gopiau ychwanegol)** | |
| Pan fo gen eich plentyn anghenion ychwanegol (ar dâp) **(£1.50 am gopiau ychwanegol)** | |
| Budd-daliadau, Credydau Treth a chymorth ariannol eraill | |
| Arweinydd Credydau Treth | |
| Gofalu am blant gydag anghenion arbennig – arweiniad i fyfyrwyr a gweithwyr broffesiynol | |
| Gwyliau, chwarae a hamdden | |
| Byw heb ddiagnosis | |
| Trawsnewid | |
| Siblingiaid | |
| Anghenion Addysgol Arbennig – Cymru | |
| Neiniau a Teidiau | |
| Tadau | |
| Cyflwr gennygol yn y teulu | |
| Camu ymlaen i waith | |
| Cymorthion, Cyfarpar ac Addasiadau | |
| Anhwylderau penodol ac ymddygiad eich plentyn – Canllawiau ar gyfer ffenoteipiau ymddygiad | |
| Perthnasau a gofalu am blentyn anabl | |
| Asesiadau yn Lloegr a Chymru | |
| Ymdrin â dyled – Cymru a Lloegr | |
| Y GIG a gofalu am blentyn anabl | |

**Y mae yna amryw o daflenni gwybodaeth ar gael yn y Gymraeg ar ein gwefan [www.cafamily.org.uk/wales](www.cafamily.org.uk/wales)**

**A fyddech cystal â dychwelyd y ffurflen hon i Cyswllt Teulu Cymru, Adeilad y Gyfnewidfa, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5EB. Ffacs: 029 2049 5001**
**Neu fel arall, fe allwch ein ffonio ar 029 2049 8001 neu anfonwch e-bost at [katie.barrett-goode@cafamily.org.uk](mailto:katie.barrett-goode@cafamily.org.uk)**